

Bridgend County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



Dechrau yn yr Ysgol 2019 – 2020

Arweiniad i Drefniadau Derbyn Cyngor Pen-y-bont ar
Ogwr ar gyfer Ysgolion

[Gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol](#)

[Pen-y-bont ar Ogwr](#)

Tabl Cynnwys

Rhagair	3
A. Polisi a Threfniadau Derbyn Ysgolion 2019-2020.....	5
B. Dyddiadau Tymor Ysgol	5
C. Map Ysgolion	5
CH. Derbyn I Ysgolion Gwirfoddol A Gynorthwyr	5
D. Ysgol Gynradd Gatholig Y Santes Fair, Pen-y-Bont – Polisi Derbyn.....	5
DD. Ysgol Gynradd Gatholig Y Santes Fair a Sant Padrig, Maesteg – Polisi Derbyn	7
E. Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert, Aberkenfig - Polisi Derbyn.....	9
F. Ysgol Uwchradd Gatholig Yr Archesgob McGrath - Polisi Derbyn	10
FF. Ysgol Gynradd Yr Eglwys Yng Nghymru'r Archddiacon John Lewis, Pen-y-Bont - Polisi Derbyn	13
H. Amserlen Ar Gyfer Derbyn Plant i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr Medi 2019-2020	15
I. Arholiadau	16
M. Rôl Y Gwasanaeth Lles Addysg	17
N. Polisi Cludiant Rhwng Y Cartref a'r Ysgol/Coleg	17
L. Darpariaeth ar Gyfer Disgyblion ag Angheinion Dysgu Y Chwanegol.....	22
LL. Amddiffyn Plant	24
M. Llwodraethwyr Ysgol	25
N. Grantiau i Ddisgyblion	26
O. Y Gwasanaethau Arlwyo	28
P. Cyflogi Plant.....	29
PH. Llaeth Ysgol	30



Mr Lindsay Iorwerth Harvey
Cyfarwyddwr Corfforaethol,
Addysg a Chymorth i Deuluoedd



Cyngorydd DR.C E Smith
Aelod Cabinet - Addysg ac
Adfywio

Rhagair

Annwyl Riant/Gofalwr,

Bob awdurdod lleol i roi cyfle i rieni/gofalwyr fynegi pa ysgol sydd orau ganddynt wrth ddewis ysgol ar gyfer eu plant. Mae hwn yn un o'r penderfyniadau pwysicaf y byddwch yn ei wneud ar ran eich plentyn. Mae'r ddogfen wybodaeth hon wedi ei pharatoi i'ch cynorthwyo i wneud eich penderfyniadau.

Fel rhiant/gofalwr, mae gennych hawl i ddisgwyl y bydd eich plentyn yn derbyn addysg dda, ond mae'n bwysig hefyd eich bod yn cymryd diddordeb yng ngwaith eich plentyn yn yr ysgol a bydd hyn yn ei dro yn galonogol i'r ysgol ac yn ategu ymdrechion yr athrawon. Rwyf yn eich annog i gymryd rhan yng nghymdeithas rieni yn yr ysgol a fydd yn rhoi cyfle i chi gael cysylltiad agosach â'r ysgol.

Efallai y byddai gennych ddiddordeb mewn gwybod bod cynrychiolwyr rhieni ar gorff llywodraethu pob ysgol, sy'n cael eu hethol gan y rhieni eu hunain, bob pedair blynedd fel arfer. Bob blwyddyn, byddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar y gwaith a wnaethpwyd gan gorff llywodraethu'r ysgol a chynhelir cyfarfod i roi cyfle i rieni drafod yr adroddiad blynyddol gyda'r llywodraethwyr.

Gobeithio y bydd eich plentyn yn ymgartrefu'n rhwydd yn ei ysgol newydd ac y bydd ar ei ennill o ganlyniad i'r cyfleoedd a gynigir.

Rwyf yn hyderus y bydd y llyfryn hwn yn darparu llawer o wybodaeth ddefnyddiol ac y bydd yn hybu gwell ddealltwriaeth rhyngoch chi a'r gwasanaeth addysg yn gyffredinol.

Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)
Cyfarwyddwr Corfforaethol
Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro)

Rydym ni am i sir Pen-y-bont ar Ogwr fod yn lle da i fod yn blentyn neu'n berson ifanc, neu i fagu teulu. Trwy ein hysgolion a'n gwasanaethau plant, rydym am helpu ein holl blant a phobl ifanc:

- i ffynnu a manteisio i'r eithaf ar eu doniau;
- i fyw bywydau iach a diogel;
- i fod yn unigolion hyderus a gofalgar; a
- i wybod beth yw eu hawliau a derbyn yr hawliau hynny.

Rhieni / gofalmwr yn chwarae rôl hollbwysig yn helpu eu plant i ddysgu. Dylai'r rôl hon barhau ac ymestyn pan fo plentyn yn dechrau yn yr ysgol. Mae ein hysgolion yn cynnig ystod o brofiadau a chyfleoedd dysgu o safon, ond er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd hyn a helpu plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial, mae'n bwysig bod rhieni'n ffurfio partneriaeth gynhyrchiol a chefnogol gyda staff yr ysgol, gan ddechrau trwy sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol.

Mae cyfathrebu rheolaidd rhwng y cartref a'r ysgol yn rhan hanfodol o'r bartneriaeth, sy'n helpu plant a phobl ifanc i lwyddo.

Ein nod yw bod pob ysgol leol yn ysgol dda ond rydym yn cydnabod bod gan rieni hawl i fynegi dewis i'w plentyn fynychu unrhyw ysgol sydd wedi'i rhestru yng nghanol y llyfryn hwn, yn amodol ar y trefniadau derbyn a nodir.

Mae'r llyfryn hwn wedi'i fwriadu i roi gwybodaeth gyffredinol i rieni am ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Pen-y-bont ar Ogwr ac, yn fwy penodol, am y trefniadau derbyn ac apelio sy'n berthnasol i'r ysgolion hynny.

Rydym hefyd wedi cynnwys peth gwybodaeth ychwanegol a allai fod o gymorth i rieni ddewis ysgol. Mewn rhai rhannau o sir Pen-y-bont ar Ogwr, am ystod o resymau, mae pwysau ar y lleoedd mewn ysgolion. Golyga hyn, yn yr ardaloedd hynny, ei bod yn bosib na fydd rhieni wastad yn llwyddo i gael lle yn eu dewis ysgol, yn enwedig os nad ydynt yn byw yn nalgylch yr ysgol.

Fel Cyngor, rydyn ni'n meddwl ei bod yn bwysig i ni gynnal ein busnes mewn modd sy'n:

- Deg – gan ystyried anghenion a sefyllfaoedd pawb
- Uchelgeisiol - yn ceisio gwella'r hyn yr ydym yn ei wneud yn barhaus
- Canolbwyntio ar ein cwsmeriaid - cofio ein bod yma i wasanaethu'r gymuned leol
- Effeithlon – trwy ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian

Os bydd arnoch angen gwybodaeth bellach, neu os hoffech gynnig adborth am y llyfryn hwn neu'r broses dderbyn ar y cyfan, byddai'n dda gennym glywed gennych ar e-bost pupilservices@bridgend.gov.uk

A. Polisi a Threfniadau Derbyn Ysgolion 2019-2020

I weld y polisi a threfniadau derbyn ysgolion ar gyfer 2019-2020, plis [ymweld â'n tudalen 'cofrestru plentyn'](#).

B. Dyddiadau Tymor Ysgol

Tymor	Dechrau'r Tymor	Hanner Tymor		Gorffen Tymor	Dyddiau
		Dechrau	Gorffen		
Hydref 2019	Dydd Llun 2 Medi 2019	Dydd Llun 28 Hydref 2019	Dydd Gwener 1 Tachwedd 2019	Dydd Gwener 20 Rhagfyr 2019	75
Gwanwyn 2020	Dydd Llun 6 Ionawr 2020	Dydd Llun 17 Chwefror 2020	Dydd Gwener 21 Mawrth 2020	Dydd Gwener 03 Ebrill 2020	60
Haf 2020	Dydd Llun 20 Ebrill 2020	Dydd Llun 25 Mai 2020	Dydd Gwener 29 Mai 2020	Dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2020	60

C. Map Ysgolion

I weld y map dalgylch ysgolion a gwybodaeth ar ysgolion bwydo, plis [ymweld â'n tudalen 'mapiau dalgylch ysgolion ac ysgolion bwydo'](#).

CH. Derbyn I Ysgolion Gwirfoddol A Gynorthwyr

Ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae pum ysgol wirfoddol a gynorthwyr sy'n cael eu cyllido'n bennaf gan yr Awdurdod Lleol, ond sy'n cael eu trefnu a'u rhedeg gan y priod gyrff llywodraethu.

Corff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyr yw'r awdurdod derbyn sydd â chyfrifoldeb am yr holl drefniadau derbyn.

Mae'r manylion y pum ysgol wirfoddol a gynorthwyr yn y fwrdeistref sirol wedi'i nodi mewn rhan D i FF.

. Trefniadau Derbyn Ysgol Gynradd Gatholig Y Santes Fair

Cyfeiria'r polisi hwn at dderbyn plant 2019-2020 yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, sy'n Ysgol Gatholig a gyllidir gan yr Eglwys i ddarparu addysg ar gyfer plant Catholig. Y Corff Llywodraethu sy'n llwyr gyfrifol am dderbyn plant i'r ysgol hon.

Mae Deddf Addysg 1980, Adran 6, yn rhoi'r hawl i rieni fynegi **dewis o ran yr ysgol yr hoffent i'w plant ei mynychu**. Bydd plant yn cael eu derbyn i'r ysgol yn unol â dewis rhieni, **yn amodol ar y drefn blaenoriaeth a nodir isod**.

Mae'r ysgol yn ceisio caniatáu i bob un sy'n mynegi awydd i dderbyn addysg Gristnogol ddod i'r ysgol hon.

Mae gofyn i bob ymgeisydd lofnodi datganiad i ddynodi cefnogaeth gadarnhaol i nodau ac ethos yr ysgol fel a fynegir yn ei Datganiad o Genhadaeth.

Mae'r meini prawf ar gyfer derbyn, yn nhrefn blaenoriaeth, fel a ganlyn:

1. Plant sy'n derbyn gofal a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig.
2. Plant a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig.
3. Plant sy'n derbyn gofal a fedyddiwyd mewn enwadau Cristnogol eraill.
4. Plant a fedyddiwyd mewn enwadau Cristnogol eraill.
5. Plant y mae'u rheini/gwarcheidwaid yn dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn Ysgol Gristnogol ac sy'n cefnogi ethos Catholic yr Ysgol.

Wrth ystyried ceisiadau yn y categorïau hyn, efallai y bydd yn rhaid sefydlu trefn blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- a) Oedran unrhyw sibling yn yr ysgol sy'n derbyn; gyda'r sibling ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf.
- b) Agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol sy'n derbyn yn seiliedig ar y pellter cerdded byrraf sy'n ymarferol. Bydd y llywodraethwyr yn defnyddio meddalwedd System Gwybodaeth Ddaearyddol i fesur pob pellter.
 - Yn y categori uchod, rhoddir y flaenoriaeth uchaf i 'Blant sy'n Derbyn Gofal'.
 - Bydd ceisiadau gan blant ag anghenion arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hystyried yng nghyd-destun pob un o'r meini prawf ac yn unol â Pholisi Anghenion Arbennig y Corff Llywodraethu.

Dylai rhieni/gwarcheidwaid sy'n ceisio addysg Gristnogol i blant dan faen prawf 2 ddisgwyl gorfod darparu cefnogaeth ddogfennol gan eu hoffeiriad/gweinidog presennol.

Os digwydd i unrhyw blentyn beidio â chael ei dderbyn i'r ysgol, gall rhiant/gwarcheidwad apelio'n ysgrifenedig wrth:

**Clerc y Llywodraethwyr
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
Heol Llangewydd
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4JW**

DD. Ysgol Gynradd Gatholig Y Santes Fair a Sant Padrig

“Fe sefydlwyd yr Ysgol gan, ac mae’n rhan o’r Eglwys Gatholig. Caiff yr ysgol ei gweinyddu fel Ysgol Gatholig yn unol â chyfraith ganon ag athrawiaeth Eglwys Gatholig Rhufain, ac yn unol â DOGFEN YMDDIRIEDOLAETH ARCHESGOBAETH CAERDYDD ac yn arbennig:

- a) *bydd addysg grefyddol yn cael ei chyflwyno’n unol ag athrawiaeth, dysgeidiaeth, disgyblaeth a normau cyffredinol ac arbennig yr Eglwys Gatholig;*
- b) *bydd gweithredoedd addoli crefyddol yn digwydd yn unol â defodau, arferion, disgyblaethau a normau litwrgaidd yr Eglwys Gatholig;*

ac ar bob adeg bydd yr ysgol yn dyst i’r ffydd Gatholig trwy Ein Harglwydd Iesu Grist.” (Offeryn Llywodraethu, 2012)

Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr, y Corff Llywodraethu sy’n gyfrifol am dderbyn plant i **Ysgol Gynradd Gatholig Y Santes Fair a Sant padrig** ac mae’n ceisio caniatáu i bawb sy’n mynegi awydd i dderbyn addysg Gristnogol ddod i’r ysgol hon.

Y Nifer Derbyn Cyhoeddedig presennol ar gyfer yr ysgol yw 25.

Mae’n rhaid i bob cais am le yn **Ysgol Gynradd Gatholig Y Santes Fair a Sant padrig**, gan gynnwys ceisiadau ar gyfer plant sydd yn Nosbarth Meithrin yr ysgol, gael ei gyflwyno ar ffurflen gais sydd ar gael o’r ysgol, ei chyflwyno i gael ei hystyried erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, ac mae ar gael gan yr ysgol, neu ar y ffurflen gais neu ym mhrosbectws cyfansawdd yr Awdurdod Lleol.

Nid yw bod yn ddisgybl yn y Dosbarth Meithrin yn **Ysgol Gynradd Gatholig Y Santes Fair a Sant padrig** yn gwarantu lle yn, nac yn rhoi blaenoriaeth i blentyn ar gyfer cael ei dderbyn i, Ddosbarth Derbyn yr Ysgol.

Gall plant ddechrau yn y Dosbarth Derbyn o’r mis Medi yn y flwyddyn ysgol y byddant yn troi’n pump. Fodd bynnag, gellir aros cyn bod plentyn yn dechrau yn yr ysgol tan y (ond ddim y tu hwnt i’r) tymor ar ôl pumed pen-blwydd y plentyn.

Meini Prawf Goralw

Os ceir mwy o geisiadau i dderbyn plant nag sydd o leoedd ar gael, yna bydd y meini prawf goralw canlynol yn cael eu defnyddio:

1. Plant sy’n Derbyn Gofal a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig.
2. Plant a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig.
3. Plant sy’n Derbyn Gofal nad ydynt yn Gatholig.
4. Siblingiaid i blant a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig ac a fydd yn mynychu’r ysgol ar yr adeg y cânt eu derbyn (bydd siblingiaid yn y blynyddoedd is yn cael mwy o flaenoriaeth).

5. Plant a fedyddiwyd mewn enwadau Cristnogol eraill neu sy'n aelodau cydnabyddedig o enwadau o'r fath ac y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn Ysgol Gristnogol.
6. Plant sydd, siblingiaid yn yr ysgol ar yr adeg y cânt eu derbyn (bydd siblingiaid yn y blynyddoedd is yn cael mwy o flaenoriaeth).
7. Pob ymgeisydd arall.

Y diffiniad o sibling yw hanner brawd/chwaer neu frawd llawn/chwaer lawn; llysfrawd/llyschwaer; brawd mabwysiedig/chwaer fabwysiedig; neu blentyn sy'n byw ar yr un aelwyd. Wrth ddyrannu lleoedd, os cynigir y lle olaf i blentyn a aned fel rhan o enedigaeth luosog (e.e. gefell neu dripled) bydd y Corff Llywodraethu hefyd yn derbyn y sibling arall/siblingiaid eraill.

Mewn amgylchiadau lle bo modd derbyn rhai o'r plant yn y categorïau uchod ond nid y cwbl, rhoddir blaenoriaeth i'r plant y mae eu cartref o fewn y pellter cerdded byrraf wedi'i fesur gan ddefnyddio'r feddalwedd System Gwybodaeth Ddaearyddol a gymeradwyir gan yr Awdurdod Lleol ar y pryd.

Bydd angen i geisiadau sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer blaenoriaeth yng Nghategorïau 1, 2 a 5 ddarparu copi o dystysgrif bedydd neu lythyr yn cadarnhau aelodaeth gan eu gweinidog fel y bo'n briodol.

Caiff pob cais a dderbynnir erbyn y dyddiad cau eu hystyried gyda'i gilydd, ac anfonir llythyr yn cynnig neu'n gwrthod lle ar y Dyddiad Cynnig Cyffredin. Ystyrir ceisiadau hwyr ar ôl y rhai sydd wedi cyrraedd erbyn y dyddiad cau.

Gellir cadarnhau'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau a'r Dyddiad Cynnig Cyffredin trwy gysylltu â'r Ysgol neu gyfeirio at brospectws cyfansawdd yr Awdurdod Lleol.

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus gadarnhau eu bod yn derbyn cynnig erbyn y dyddiad a nodir yn y llythyr yn cynnig lle iddynt. Gellid tynnu'r cynnig yn ôl a rhoi lle'r plentyn i ymgeisydd arall os na wneir hyn.

Rhoddir ymgeiswyr aflwyddiannus ar restr aros tan yr 31ain o Awst. Dyrennir unrhyw lleoedd ychwanegol yn unol â'r Meini Prawf Goralw uchod.

Derbynnir ceisiadau i dderbyn plant yn ystod y flwyddyn pan fo lleoedd ar gael. Os derbynnir mwy o geisiadau yn ystod y flwyddyn nag sydd o lleoedd, ystyrir pob cais yn unol â'r meini prawf goralw uchod.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Derbyn y Corff Llywodraethu (sylwer nad oes hawl i apelio yn achos derbyniadau i'r Dosbarth Meithrin) lenwi'r Ffurflen Apeliadau a amgaeir gyda'r llythyr hysbysu. **Rhaid** llenwi'r ffurflen a'i hanfon yn ôl, o fewn 14 diwrnod (10 niwrnod gwaith) i dderbyn hysbysiad bod y cais wedi'i wrthod, at:

**Clerc y Corff Llywodraethu
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig
Monica Street
Maesteg
CF34 0AY**

Bydd pob apêl yn cael ei chlywed gan Banel Apeliadau Annibynnol a'i chynnal yn unol â'r

E. Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert Polisi Derbyn

Cyfeiria'r polisi hwn at dderbyn plant yn 2019-2020 yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae Ysgol Sant Robert yn Ysgol Gatholig a sefydlwyd gan yr Eglwys i ddarparu addysg ar gyfer plant Catholig. Y Corff Llywodraethu sy'n llwyr gyfrifol am dderbyn plant i'r ysgol.

Mae Deddf Addysg 1980, Adran 6 yn rhoi'r hawl i rieni fynegi **dewis o ran yr ysgol yr hoffent i'w plant ei mynychu**. Bydd plant yn cael eu derbyn i'r ysgol yn unol â dewis rhieni, **yn amodol ar y drefn blaenoriaeth a nodir isod**.

Mae'r ysgol yn ceisio caniatáu i bob un sy'n mynegi awydd i dderbyn addysg Gristnogol ddod i'r ysgol hon.

Mae gofyn i bob ymgeisydd lofnodi datganiad i ddynodi cefnogaeth gadarnhaol i nodau ac ethos yr ysgol fel a fynegir yn ei Datganiad o Genhadaeth.

Mae'r meini prawf ar gyfer derbyn, yn nhrefn blaenoriaeth, fel a ganlyn:

1. Plant a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig.
2. Plant a fedyddiwyd mewn enwadau Cristnogol eraill ac y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn Ysgol Gristnogol ac yn cefnogi'r ethos Catholig yn yr ysgol.

Wrth ystyried ceisiadau yn y categorïau hyn, efallai y bydd yn rhaid sefydlu trefn blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- a) oedran sibling yn yr ysgol sy'n derbyn; gyda'r sibling ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf.
- b) agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol sy'n derbyn yn seiliedig ar y pellter cerdded byrraf sy'n ymarferol.
 - Ym mhob categori, rhoddir y flaenoriaeth uchaf i Blant sy'n Derbyn Gofal.
 - Bydd ceisiadau gan blant ag anghenion arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hystyried yng nghyd-destun pob un o'r meini prawf ac yn unol â Pholisi Anghenion Arbennig y Corff Llywodraethol.

Dylai rhieni/gwarcheidwaid sy'n ceisio addysg Gristnogol i blant dan faen prawf 2 ddisgwyl gorfod darparu cefnogaeth ddogfennol gan eu hoffeiriad/gweinidog presennol.

Os digwydd i unrhyw blentyn beidio â chael ei dderbyn i'r ysgol, gall rhiant/gwarcheidwad apelio'n ysgrifenedig wrth:

**Clerc y Llywodraethwyr
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert
Dan y Lan, Abercynffig
Pen-y-bont ar Ogwr
CF32 9AB**

F. Ysgol Uwchradd Gatholig Yr Archesgob McGrath Polisi Derbyn

Cyffredinol:

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath yn ysgol uwchradd wirfoddol a gynorthwyir, sy'n Saesneg ei chyfrwng ac yn gymysg o ran y disgyblion sy'n mynychu. Mae'n gwasanaethu plwyfi Ein Harglwyddes a Sant Padrig (Maesteg), Sant Robert (Abercynffig), y Santes Fair (Pen-y-bont), Ein Harglwyddes Seren y Môr (Porthcawl) a Sant Joseff o Arimathea (y Pîl).

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adran 86, yn rhoi'r hawl i rieni fynegi dewis o ran yr ysgol yr hoffent i'w plant ei mynychu.

Meini Prawf Goralw a Threfn Blaenoriaeth

Pan fo nifer yr ymgeiswyr am le yn uwch na'r Nifer Derbyn o 131 o leoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i ymgeiswyr yn y categorïau isod, yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

1. Plant sy'n Derbyn Gofal a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig.
2. Plant a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig.
3. Plant eraill sy'n Derbyn Gofal.
4. Siblingiaid i blant a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig ac a fydd yn mynychu Ysgol Uwchradd yr Archesgob McGrath ar adeg eu derbyn.
5. Plant sy'n mynychu ysgol gynradd Gatholig ar adeg cyflwyno'r cais ac y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn parhau i geisio addysg benodol Gristnogol iddynt.
6. Plant sy'n mynychu un o ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru ar adeg cyflwyno'r cais ac y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn parhau i geisio addysg benodol Gristnogol iddynt.
7. Siblingiaid i blant eraill a fydd yn mynychu Ysgol Uwchradd yr Archesgob McGrath ar adeg eu derbyn.
8. Plant eraill y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn ceisio addysg benodol Gristnogol iddynt.

Nodiadau

1. Mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth o fedydd gyda'r ffurflen gais ym mhob achos.
2. Yn y cyd-destun hwn, byddai "siblingiaid" yn rhannu'r un fam neu dad, mam neu dad mabwysiedig, neu'n rhan o uned deuluol sefydledig. Wrth ddyrannu lleoedd, os cynigir y lle olaf i blentyn o enedigaeth luosog (e.e. gefaill neu dripled), bydd yr ysgol hefyd yn derbyn y sibling arall / y siblingiaid eraill.

Mewn amgylchiadau lle nad oes modd derbyn yr holl blant mewn categori penodol, am resymau sy'n ymwneud â'r lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i'r rheiny y mae eu cartref agosaf at yr ysgol yn seiliedig ar y pellter cerdded byrraf sy'n ymarferol. Penderfynir ar hyn gan ddefnyddio'r System Gwybodaeth Ddaearyddol sydd wedi'i chymeradwyo gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y pryd.

Ymgeisio

Mae'n rhaid i ffurflenni cais, a lle y bo'n briodol y dogfennau ategol, gael eu dychwelyd i'r Ysgol fan bellaf erbyn **Dydd Gwener 11 Ionawr 2019**. Yn achos plant sy'n mynychu un o'r ysgolion cynradd Catholig uchod, gellir cyflwyno'r ffurflen i'r ysgol. Ar gyfer ceisiadau eraill, dylid anfon y ffurflen yn uniongyrchol at y Panel Derbyn yn Ysgol Uwchradd Gatholig yr

Archesgob McGrath.

Bydd ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad hwn yn cael eu hystyried gyda'i gilydd a lleoedd yn cael eu dyrannu. Bydd llythyrau sy'n cadarnhau canlyniad eich cais yn cael eu hanfon **Dydd Friday 1 Mawrth 2019**.

Polisi Derbyn

Corff Llywodraethu'r Ysgol sy'n gyfrifol am bennu a gweinyddu'r Polisi mewn perthynas â derbyn disgyblion i'r Ysgol. Caiff ei arwain yn y cyfrifoldeb hwnnw gan ofynion y gyfraith, gan gyngor yr ymddiriedolwyr Esgobaethol a'i ddyletswydd i'r Ysgol a'r gymuned Gatholig.

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, mae'r Corff Llywodraethu wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am benderfynu ynghylch derbyn disgyblion i'w 'Banel Derbyn', sef is-bwyllgor i'r Corff Llywodraethu. Bydd y Panel Derbyn yn ystyried pob cais a wneir yn unol â'r meini prawf ar dudalen 2 o'r ddogfen hon, heb gyfeirio at hil, rhyw, gallu, anabledd, cefndir cymdeithasol na thueddfryd y plentyn.

Ar ôl ymgynghori â'r ALI ac eraill yn unol â gofynion y gyfraith, mae'r Corff Llywodraethu wedi pennu nifer derbyn arfaethedig o **131** o ddisgyblion ar gyfer y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ym mis Medi 2018. Mae'r lleoedd mewn grwpiau blwyddyn eraill wedi'u cyfyngu i 131 hefyd.

Mae'n rhaid i rieni/gwarcheidwaid sy'n dymuno ymgeisio am le i'w plentyn ar gyfer **dechrau blwyddyn academaidd 2019-2020** lenwi'r ffurflen gais yn llawn, a'i dychwelyd i'r ysgol, fan bellaf erbyn y Dyddiad Cau a gyhoeddwyd ar gyfer ceisiadau. Sylwer bod yn **rhaid** cyflwyno POB cais ar y ffurflen hon ac y bydd y ceisiadau i gyd yn cael eu hystyried ar yr un pryd.

Bydd llythyrau'n cael eu hanfon ar y dyddiad 'cynnig cyffredin' a gyhoeddwyd, yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad y Panel Derbyn mewn perthynas â'ch cais. Os bydd y cais yn aflwyddiannus, bydd y rhesymau'n cael eu nodi'n glir yn y llythyr, a byddwch yn cael gwybodaeth ynghylch sut i apelio yn erbyn y penderfyniad. Rhoddir ymgeiswyr nad ydynt yn cael eu derbyn ar Restr Aros yr ysgol. Bydd ymgeiswyr yn aros ar y Rhestr Aros tan ddiwedd y flwyddyn academaidd. Os daw lleoedd ar gael, bydd y ceisiadau ar y Rhestr Aros yn cael eu hadolygu ar sail y meini prawf goralw a gwneir cynigion i lenwi'r lleoedd sydd ar gael.

Dylid gwneud ceisiadau i **drosglwyddo i'r ysgol o ysgolion uwchradd eraill** yn ystod y flwyddyn academaidd gan ddefnyddio ffurflen gais benodol trosglwyddo ysgolion. Bydd panel derbyn y corff llywodraethu yn ystyried pob cais. Os bydd mwy yn gwneud cais i drosglwyddo na'r lleoedd sydd ar gael, defnyddir y Meini Prawf Goralw i benderfynu ar yr ymgeiswyr llwyddiannus. Os yw'r grŵp blwyddyn penodol yn llawn, rhoddir ymgeiswyr ar Restr Aros yr ysgol. Bydd ymgeiswyr yn aros ar y Rhestr Aros tan ddiwedd y flwyddyn academaidd. Os daw lleoedd ar gael, bydd y ceisiadau ar y Rhestr Aros yn cael eu hadolygu ar sail y Meini Prawf Goralw a gwneir cynigion i lenwi'r lleoedd sydd ar gael.

Mae gan rieni **hawl i apelio** yn erbyn penderfyniad gan y Corff Llywodraethu i wrthod derbyn eu plentyn. Os ydynt yn dymuno gwneud hynny, dylent gyflwyno eu hapêl yn ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr yn yr Ysgol o fewn 14 diwrnod (10 niwrnod gwaith) i'r dyddiad y cawsant eu hysbysu. Bydd apeliadau'n cael eu trefnu gyda phanel annibynnol a'u cynnal yn unol â'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion.

Ar gyfer yr holl geisiadau llwyddiannus, bydd y data yn y ffurflen gais yn cael ei storio ar

system rheoli gwybodaeth yr ysgol a'i ddefnyddio at ddibenion a amlinellir yn y 'gorchymyn prosesau teg'. Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb a diogelwch data personol a gedwir gan yr Ysgol. Dan y Ddeddf Diogelu Data, mae gan unigolion **hawl i weld gwybodaeth bersonol** a gedwir amdanynt, yn ogystal â'r hawl i gael cywiro unrhyw wallau.

Anfonwch y ffurflen gais (a'r dogfennau ategol) i'r cyfeiriad canlynol:

**Panel Derbyn y Llywodraethwyr
Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath
Oak Tree Way
Bracla
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 2DN**

Gellir dod o hyd i'r dyddiadau y cyfeirir atynt uchod ar wefan yr Ysgol neu ar wefan yr awdurdod lleol.

[Gwefan yr Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath.](#)

[Ein tudalennau'r we am dderbyniadau i ysgolion.](#)

FF. Ysgol Gynradd Yr Eglwys Yng Nghymru'r Archddiacon John Lewis, Pen-y-Bont - Polisi Derbyn

A. Yr Awdurdod Derbyn

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Yr Eglwys Yng Nghymru'r Archddiacon John Lewis yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol. Er bod ganddo gyfrifoldeb am ei pholisi a gweithdrefnau, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ymgynghori'n flynyddol ag Awdurdodau Derbyn eraill o fewn radiws o dair milltir i'r ysgol. Gwneir y datganiad hwn a'r rheolau hyn dan ddarpariaethau'r deddfau addysg, yn benodol Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Dderbyn ac Apeliadau Derbyn i Ysgolion ac yn unol â Dogfen Ymddiriedolaeth ac Offeryn Llywodraethu'r ysgol.

B. Dewis Rhieni

Mae'n rhaid i Rieni/Gofalwyr yr hoffent i'w plentyn/plant fynychu'r ysgol hon gysylltu â'r ysgol i gael y ffurflenni cais perthnasol. Nid yw dewis rhieni'n gymwys dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pe bai derbyn y plentyn yn peryglu'r nod o ddarparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon;
- Os yw'r plentyn wedi cael ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy. Caiff y gofyniad i gydymffurfio â dewis rhieni ei wneud yn anghymwys am gyfnod o ddwy flynedd wedi'r ail waharddiad. Nid yw hyn yn berthnasol i blant a oedd o dan oedran ysgol gorfodol pan gawsant eu gwahardd nac i ddisgyblion a dderbyniwyd yn ôl wedi iddynt gael eu gwahardd;
- Pe bai derbyn y plentyn yn anghydnaws â'r ddyletswydd statudol i gyfyngu meintiau dosbarthiadau babanod i 30.

C. Derbyn i'r Dosbarth Meithrin

30 yw nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol. Mae'r nifer derbyn yn seiliedig ar allu ffisegol yr ysgol i dderbyn disgyblion ac felly ni ddylid mynd y tu hwnt iddo dan amgylchiadau arferol.

Ar yr amod nad eir y tu hwnt i'r niferoedd statudol, mae lleoedd meithrin rhan-amser ar gael i blant yn y tymor yn dilyn eu 3ydd pen-blwydd. Mae lleoedd Meithrin llawn-amser ar gael i blant ym mis Medi yn y flwyddyn academaidd y byddant yn troi'n pedwar.

Mae ffurflenni derbyn ar gael o'r ysgol a bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni sydd wedi gofyn am le Meithrin yn ystod y tymor cyn i'w plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol. Fel gyda phob ysgol, nid yw mynediad i'r dosbarth derbyn o'r dosbarth Meithrin yn digwydd yn awtomatig. Nid oes angen i rieni ailymgeisio am le yn y dosbarth derbyn gan y bydd 'Ffurflen Dderbyn' safonol yr ysgol, a gwblhawyd pan dderbyniwyd y plentyn i'r dosbarth Meithrin, yn cael ei defnyddio. Os gwrthodir y cais bydd llythyr yn cael ei anfon a hwnnw'n nodi'r rhesymau dros y penderfyniad ac yn hysbysu Rhieni/Gofalwyr ynghylch y broses apelio.

Ch. Rheoliadau Maint Dosbarthiadau Babanod

Er mwyn gwella safonau addysgol mewn ysgolion, mae'r Llywodraeth yn gweithredu polisi sy'n cyfyngu nifer y plant mewn dosbarthiadau babanod i uchafswm o 30 o ddisgyblion ym mhob dosbarth. Dim ond os yw'r nifer derbyn cyhoeddedig eisoes wedi'i gyrraedd y gall awdurdodau derbyn wrthod derbyn plentyn oherwydd maint dosbarth babanod.

D. Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd

Mae Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd yn ganolbwynt i'r profiadau y mae disgyblion yn eu derbyn yn ein hysgol. Mae Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd yn digwydd yn unol â dysgeidiaeth ac ymarfer enwadol yr Eglwys yng Nghymru. Ceir mwy o wybodaeth am hyn ym mhrosiectws yr ysgol.

Dd. Cyfle Cyfartal

Mae'r Corff Llywodraethu yn ceisio cydymffurfio'n llawn bob amser â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ar gyfle cyfartal, hawliau dynol a Deddf yr Iaith Gymraeg.

E. Oedran Ysgol Statudol

Mae'n rhaid i blant o oedran ysgol statudol fynychu addysg lawn-amser o'r tymor ar ôl eu pumed pen-blwydd.

F. Meini Prawf ar gyfer Penderfynu ynghylch Derbyn

Mae'r ysgol yn agored i unrhyw blant o oedran ysgol statudol yr hoffai eu rhieni iddynt gael eu haddysgu mewn ysgol ac iddi gymeriad Cristnogol penodol ac yn unol â dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru. Os ceir mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi lleoedd i ymgeiswyr yn ôl eu gallu i gwrdd â'r meini prawf derbyn canlynol yn nhrefn blaenoriaeth.

Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i gydymffurfio ag adran 106 o Ddeddf Addysg 2005 i roi blaenoriaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC).

1. Plant sy'n Derbyn Gofal y mae eu teuluoedd yn addoli fel Anglicaniaid;
2. Plant y mae eu teuluoedd yn addoli fel Anglicaniaid;
3. Yr holl blant eraill sy'n derbyn gofal;
4. Plant ym mhob ffydd arall sy'n addoli'n rheolaidd;
5. Plant a chanddynt eisoes sibling yn yr ysgol;
6. Plant sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y mae eu rhieni'n dymuno iddynt gael eu haddysgu yn un o Ysgolion Cynradd yr Eglwys yng Nghymru. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol gan ddefnyddio meddalwedd system gwybodaeth ddaearyddol i fesur pellteroedd.

Diffiniadau

- *Rheolaidd – o leiaf ddwywaith y mis. Bydd tystlythyr gan offeiriad yn ofynnol hefyd.*
- *Siblingiaid – Y diffiniad o sibling yw hanner brawd/chwaer neu frawd llawn/chwaer llawn; brawd neu chwaer m/fabwysiedig; plentyn sy'n byw ar yr un aelwyd.*
- *Yn byw agosaf at yr ysgol – cyfeiriad parhaol y rhiant neu warcheidwad cyfreithiol. Bydd yn ofynnol darparu prawf o gyfeiriad.*

Ff. Goralw

Mae gan bob ymgeisydd aflwyddiannus yr hawl i apelio gerbron Panel Apeliadau Derbyn. Dylai llythyrau apelio gael eu hanfon at Glerc y Llywodraethwyr yn yr ysgol o fewn 10 niwrnod gwaith.

Gall rhieni y mae eu plentyn/plant wedi bod yn aflwyddiannus wrth geisio sicrhau lle ofyn i'r ysgol gadw eu cais ar ffeil. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael bydd y rhain yn cael eu

dyrannu gan ddefnyddio meini prawf derbyn yr ysgol ac nid yn ôl faint o amser y mae'r enw wedi bod ar y rhestr.

G. Trosglwyddiadau ar Ganol Tymor/Blwyddyn

Bydd yn ofynnol i rieni sy'n symud i mewn i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y flwyddyn academaidd gwblhau ffurflen dderbyn yr ysgol i ofyn am le yn yr ysgol. Os yw rhieni'n symud o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn dymuno ceisio lle yn yr ysgol hon bydd angen iddynt hwy gwblhau ffurflen trosglwyddo i'r ysgol hefyd.

Efallai y bydd Rhieni/Gwarcheidwaid yn dymuno ymgeisio am le yn yr ysgol hon am resymau heblaw symud tŷ hefyd. Yn yr achosion hyn, byddant yn cael eu hannog i siarad â'r pennaeth i egluro eu rhesymau dros y newid ysgol a bydd angen cwblhau ffurflen trosglwyddo i'r ysgol a ffurflen dderbyn yr ysgol.

Ng. Derbyn y Tu Allan i'r Grŵp Oedran Arferol

Ni fyddai'r Corff Llywodraethu fel arfer yn disgwyl derbyn plentyn y tu allan i'w grŵp oedran cronolegol arferol. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd efallai y bydd Rhieni/Gofalwyr yn ceisio lle yn yr ysgol i'w plentyn y tu allan i'w grŵp oedran arferol. Bydd y Corff Llywodraethu'n ystyried pob cais yn unigol ac yn gwneud ei benderfyniad gan ymgynghori â'r ysgol, Rhieni/Gofalwyr ac unrhyw asiantaethau eraill cysylltiedig.

Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Corff Llywodraethu yn flynyddol gan ymgynghori ag awdurdodau derbyn perthnasol eraill.

Os digwydd i unrhyw blentyn beidio â chael ei dderbyn i'r ysgol, gall rhiant/gofalwr apelio'n ysgrifenedig wrth:

**Clerc y Llywodraethwyr
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Archddiacon John Lewis
Brackla Way
Bracla
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 2JS**

Fe gynghorir rhieni/gofalwyr sy'n dymuno gwneud cais i'w plant gael eu derbyn i'r ysgolion hyn i gysylltu â'r ysgol berthnasol er mwyn cael mwy o wybodaeth.

. Amserlen Ar Gyfer Derbyn Plant i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr Medi 2019-2020

Mae'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer prosesu ceisiadau i dderbyn plant i ysgolion cynradd ac uwchradd gwirfoddol a gynorthwyr ar gyfer mis Medi 2019 fel a ganlyn:

Amserlen ar gyfer disgyblion (Blwyddyn 6) sy'n trosglwyddo o Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd ym mis Medi 2018

Gweithred	Dyddiad
Anfon ffurflenni cais i Ysgolion/at Rieni	Dydd Llun 22 Hydref 2018
Mae'n rhaid dychwelyd ffurflenni cais wedi'u cwblhau i gael eu hystyried erbyn	Dydd Gwener 11 Ionawr 2019
Panel derbyn yn hysbysu rhieni ynghylch y canlyniad	Dydd Gwener 1 Mawrth 2019
Hysbysu ynghylch unrhyw apeliadau	O fis Ebrill 2019 ymlaen

Amserlen ar gyfer derbyn i ddosbarth derbyn – Medi 2018

Gweithred	Dyddiad
Anfon ffurflenni cais i Ysgolion/at Rieni	Dydd Llun 26 Tachwedd 2018
Mae'n rhaid dychwelyd ffurflenni cais wedi'u cwblhau i gael eu hystyried erbyn	Dydd Gwener 15 Chwefror 2019
Panel derbyn yn hysbysu rhieni ynghylch y canlyniad	Dydd Mawrth 16 Ebrill 2019
Hysbysu ynghylch unrhyw apeliadau	O fis Mai 2019 ymlaen

I. Arholiadau

Bydd disgyblion oedran uwchradd, os yw'r Pennaeth yn ystyried eu bod yn addas, yn cael eu cofrestru ar gyfer arholiadau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru a/neu fyrddau arholi eraill. Cyd-bwyllgor Addysg Cymru a byrddau arholi eraill sy'n trefnu'r amserlenni ar gyfer yr arholiadau. Bydd y byrddau hynny'n hysbysu'r Pennaeth yn uniongyrchol am y rhain, ac am ganlyniadau'r arholiadau.

L. Presenoldeb Yn Yr Ysgol

Mae dyletswydd ar yr holl rieni/gofalwyr i sicrhau bod eu plentyn/plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hollbwysig i'r holl blant er mwyn iddynt gyflawni'r deilliannau gorau yn eu haddysg statudol.

Mae'r Awdurdod yn ceisio cydweithrediad rhieni i sicrhau bod eu plentyn/plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Ni ddylai rhieni/gofalwyr fynd â phlant ar wyliau yn ystod y tymor fel arfer. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau'n rhoi disgresiwn i ysgolion ganiatáu hyd at 10 niwrnod o absenoldeb awdurdodedig ar gyfer gwyliau teuluol. Mae'n rhaid i rieni/gofalwyr wneud cais am y 'caniatâd i fod yn absennol' ymlaen llaw a chaiff pob cais ei ystyried yn unigol, gan ystyried:

- oedran y plentyn;
- yr adeg o'r flwyddyn;
- y cyfnod yn addysg y plentyn a chynnydd y plentyn;
- patrwm presenoldeb cyffredinol y plentyn.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos effaith gwyliau teuluol ar bresenoldeb plentyn ar y cyfan:

- pan fo disgybl cynradd yn cael ei awdurdodi i gymryd 10 niwrnod o wyliau yn ystod blwyddyn academaidd gyfan, yna 94.7% yw'r gyfradd presenoldeb uchaf y gall ei chael am y flwyddyn;
- pan fo disgybl uwchradd yn cael ei awdurdodi i gymryd 10 niwrnod o wyliau yn ystod y cyfnod o fis Medi – Mai (y cyfnod a gwmpasir gan arolwg absenoldeb y Llywodraeth), yna 93.8% yw'r gyfradd presenoldeb uchaf y gall ei chael.

M. Rôl Y Gwasanaeth Lles Addysg

Mae hybu presenoldeb rheolaidd yn ymagwedd ar y cyd rhwng yr ysgol a'r Swyddog Lles Addysg. Mae'r Swyddog yn gweithio o fewn fframwaith cyfreithiol y mae a wnelo'n uniongyrchol â dyletswydd rhieni/gofalwyr i sicrhau bod eu plentyn/plant yn derbyn addysg amser llawn sy'n addas i'w hoedran, dawn a gallu. Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon mae Swyddogion Lles Addysg unigol yn cwrdd yn rheolaidd gyda phenaethiaid neu staff dynodedig eraill i adnabod disgyblion y mae eu presenoldeb yn achos pryder. Mae pob atgyfeiriad yn arwain at gysylltu â'r teulu i ganfod a oes unrhyw achosion sylfaenol sy'n atal y plentyn rhag mynychu'n rheolaidd. Mae'r Swyddog Lles Addysg yn annog cyfranogiad rhieni yn yr ysgol a chynorthwyo teuluoedd i leddfu problemau cymdeithasol a all effeithio ar gynnydd addysg plentyn. Lle mae ymyrraeth a chymorth yn methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd, bydd y Gwasanaeth yn defnyddio'r Llysoedd i mewn ymgais i orfodi presenoldeb yn yr ysgol.

Mae Swyddogion Lles Addysg yn gweithio fel rhan o'r tîm Cymorth Cynnar. Mae tri tîm aml-disgyblaeth sydd wedi'u lleoli yn yr un lle gyda cyd-weithwyr diogelu i'r Gogledd, Gorllewin a Dwyrain o'r Bwrdeistref Sir. Mae gan bob ysgol Swyddog Lles Addysg penodedig. Gall y tîmau Cymorth Cynnar gynnig amrywiaeth o gymorth teulu ymyriadau, sy'n seiliedig ar anghenion cymorth unigol pob teulu. Gall teuluoedd sydd angen mwy o gymorth ar faterion sy'n effeithio ar bresenoldeb ofyn i gael eu atgyfeirio i'r gwasanaeth cymorth cynnar gan yr ysgol, y Swyddog Lles Addysg neu gallant hunan-atgyfeirio trwy e-bostio earlyhelp@bridgend.gov.uk.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â 01656 815276.

N. Polisi Cludiant Rhwng Y Cartref a'r Ysgol/Coleg

1. Cyflwyniad

Cynhyrchwyd y polisi hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gydymffurfio â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i ddarparu gwybodaeth am ei bolisïau a'r trefniadau y mae'n eu rhoi ar waith i gludo dysgwyr rhwng y cartref a'r ysgol a rhwng y cartref a'r coleg.

Bwriad y Cyngor Bwrdeistref Sirol yw darparu system gludiant ddibynadwy a fydd yn ceisio cludo disgyblion yn ddiogel, yn brydlon ac yn rhesymol o gyfforddus. Bydd yr egwyddorion hyn yn berthnasol i bob gwasanaeth a gontractir gan y Cyngor.

Ym mhob achos, y defnydd effeithiol o adnoddau fydd yn pennu pa gludiant a ddefnyddir yn amodol ar unrhyw ofynion anghenion arbennig. Gall cludiant gael ei ddarparu trwy wasanaethau cludiant ysgol dan gontract neu trwy wasanaethau cludiant cyhoeddus presennol fel bws, bws mini, trê, tacsî, ac

2. Darparu cludiant am ddim

Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol (ALI) i ddarparu cludiant am ddim ar gyfer dysgwyr i'r ysgol addas agosaf os ydynt yn byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' i'r ysgol honno. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae'r term ysgol addas agosaf yn golygu'r ysgol ddalgyrch leol a gall hon fod yn ysgol Saesneg, ysgol Gymraeg, ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu ysgol arbennig a gynhelir.

Fodd bynnag, pan fydd disgyblion yn mynychu ysgol ar wahân i'w hysgol dalgyrch o ganlyniad i ddewis y rhieni, mae'n rhaid deall mai'r rhieni fydd yn llwyr gyfrifol am gostau a threfniadau'r cludiant.

Mae'r Llywodraeth Cymru wedi diffinio'r 'pellter cerdded' statudol fel dwy filltir i ddysgwyr oedran cynradd a thair milltir i ddysgwyr oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg uwchradd. O fis Medi 2016 ymlaen, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi newid ei bolisi yn unol â phellteroedd statudol.

Caiff y pellteroedd eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf, mwyaf diogel, sydd ar gael rhwng y cartref a'r ysgol/ coleg. Mae'r ALI yn defnyddio system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) bwrpasol i fesur y pellteroedd hyn a sicrhau cywirdeb.

Y newidiadau sy'n berthnasol o Fedi 2016 yw'r canlynol:

- Bydd disgyblion Ysgol Gynradd yn cael cludiant am ddim os byddant yn mynychu eu hysgol dalgyrch ac yn byw dau filltir neu fwy o'r ysgol;
- Bydd disgyblion Ysgol Uwchradd (gan gynnwys disgyblion ôl-16) yn cael cludiant am ddim os byddant yn mynychu eu hysgol dalgyrch ac yn byw tair milltir neu fwy o'r ysgol.
- Bydd disgyblion dros 16 oed sy'n byw tri milltir neu fwy o Goleg Penybont hefyd yn cael cludiant am ddim, gyda thocyn gwasanaeth cludiant cyhoeddus.

Bydd disgyblion nad ydynt yn cyrraedd y trothwy newydd ar gyfer cael cludiant am ddim, ac a oedd yn cael cludiant am ddim cyn Medi 2016, yn cadw'u hawl i gael cludiant am ddim nes y byddant yn symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg neu'n gadael yr ysgol.

Bydd disgyblion sy'n dechrau mewn ysgol gynradd neu ysgol uwchradd ym mis Medi 2016 nad ydynt yn cyrraedd y trothwy newydd ar gyfer cael cludiant am ddim, ond sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol honno sy'n derbyn cludiant am ddim, hefyd yn cael cludiant am ddim nes y byddant yn symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg neu'n gadael yr ysgol honno.

Gallai disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim brynu sedd ar fws ysgol os mae seddi ar gael. Bydd cost y sedd yn gynyddi ac yn cael ei adolygu'n flynyddol. Ar gyfer manylion gyfoes plŷs gwelwch [ein tudalennau'r we am gludiant i'r ysgol](#).

Bydd cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei drefnu i gyd-fynd â dechrau a diwedd diwrnod ysgol arferol ac yn cael ei ddarparu yn ystod tymor yr ysgol. Ni ddarperir unrhyw gludiant ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol nac ysgolion haf.

Lle mae'r awdurdod lleol wedi trefnu i ddysgwyr mynychu ysgol allan o'r sir, bydd trafndiaeth dim ond yn cel ei ddarparu ar ddechrau a diwedd pob hanner tymor. Bydd trafndiaeth, oni

bai ar gyfer dysgwyr efo anghenion addysg arbennig, fel arfer yn cael ei ddarparu i fannau casgli safle bws ar y llwybr trafnidiaeth gyhoeddus agosaf i gartref y dysgwr.

3. Dysgwyr o oedran meithrin

Nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw rwymedigaeth statudol i ddarparu cludiant ar gyfer dysgwyr oedran meithrin. Fodd bynnag, mae Cyngor Sirol Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr wedi dewis defnyddio'i bwerau disgrisiwn i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr oedran meithrin, yn unol â meini prawf pellter y Cyngor.

Felly, byddai dysgwyr oedran meithrin yn teithio yn yr un cerbyd dan gcontract â'r dysgwyr hynny o oedran ysgol statudol.

Pan eu bod yn mynychu'n llawn amser (Meithrin Dau), byddant yn teithio i'r ysgol ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac yn dod adref ar ddiwedd sesiwn y prynhawn. Fodd bynnag, lle cynigir lleoedd rhan-amser i ddysgwyr 3 oed mewn ysgolion (Meithrin Un), cyfrifoldeb y rhieni fydd naill ai casglu eu plant ar ddiwedd sesiwn y bore neu sicrhau bod eu plant yn cael eu cludo i'r ysgol ar gyfer sesiwn y prynhawn, yn dibynnu ar eu horiau mynychu.

4. Plant sy'n Derbyng Gofal

Mae'r un meini prawf o ran oedran a phellter yn berthnasol i blant sy'n 'derbyn gofal' gan yr ALI ac i blant nad ydynt yn derbyn gofal. Fodd bynnag, os bydd yr ALI yn penderfynu y dylai plentyn fynychu ysgol arall yn hytrach na'i ysgol ddalgylch yna bydd cludiant i ac o'r ysgol honno'n cael ei ddarparu

5. Trefniadau arbennig – llwybrau perglus

Ystyrir bod llwybr ar gael os yw'n ddiogel (cyn belled ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol) I ddysgwr heb anabledd nac anhawster dysgu gerdded y llwybr ar ei ben ei hun, neu yng nghwmni oedolyn os yw oedran a lefelau dealltwriaeth y dysgwr yn gofyn am hyn.

Wrth bennu diogelwch cymharol unrhyw lwybr cerdded, mae'r ALI yn cynnal asesiadau o'r peryglon y gallai plant eu hwynebu ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol.

Bydd pob asesiad yn dilyn y Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol, Mehefin 2014. Wrth i lwybrau cael eu hadolygu, gallai'r ddarpariaeth gael ei thynnu'n ôl, er enghraifft os nodwyd peryglon a fyddai'n gofyn am hynny. Bydd hwn wedyn yn cael ei ystyried fel llwybr cerdded diogel sydd wedi'i nodi ac sydd ar gael. Bydd rhieni'n cael o leiaf un tymor o rybudd cyn i'r cludiant gael ei dynnu'n ôl, a threfnir i dynnu unrhyw gludiant yn ôl fel arfer i gyd-fynd â dechrau blwyddyn academaidd.

6. Cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg

Mae dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf yn derbyn cludiant am ddim yn unol â pholisi cytunedig yr awdurdod lleol ar bellter cerdded a llwybrau diogel (gwelir adran 2 a 5 uchod).

7. Cludiant i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr

Mae dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf o blith y rhai sydd o'r un enwad â'u rhieni'n derbyn cludiant am ddim yn unol â pholisi cytunedig yr ALI ar bellter cerdded a llwybrau diogel (gwelir adran 2 a 5 uchod).

8. Dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig/Anableddau

Darperir cludiant am ddim i bob dysgwr sy'n mynychu ysgolion arbennig, unedau atgyfeirio disgyblion a chanolfannau adnoddau dysgu nad ydynt wedi'u lleoli yn eu hysgolion dalgylch, yn unol â pholisi cytunedig yr ALI ar bellteroedd cerdded.

Fe allai dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd, ac nad ydynt yn gymwys fel arall i gael cludiant am ddim, fod yn gymwys i gael cludiant am ddim os caiff eu cais ei ategu gan dystiolaeth briodol a gadarnhawyd gan Wasanaeth Cynhwysiant yr awdurdod lleol.

Gall fod gan ddysgwyr ag anableddau (yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010) hawl i gymorth gyda chludiant o'r cartref i ysgol/coleg priodol er nad yw'r trefniant yn cwrdd â meini prawf yr ALI ar bellterau cerdded diogel. Mae darpariaeth o'r fath yn amodol ar gymeradwyaeth gan Wasanaeth Cynhwysiant yr ALI. Mae'n rhaid i unrhyw atgyfeiriadau o'r fath gael eu hategu â thystiolaeth briodol.

Anghenion y dysgwr fydd yn pennu'r dull cludiant a ddarperir.

9. Trefniadau ar draws ffiniau

Gellir darparu cludiant ar gyfer dysgwyr cymwys sy'n mynychu ysgolion mewn awdurdodau lleol cyfagos, lle mae mynychu ysgolion o'r fath yn gyson â pholisi derbyn yr ALI e.e. Ysgol Gyfun Tonyrefail i ddysgwyr sy'n byw yn Evanstown ac Ysgol Gynradd y Dolau (uned Gymraeg) i ddysgwyr sy'n byw ym Mhen-coed.

7. Ysgolion lle ceir gorallw

Os na ellir derbyn dysgwr i'w ysgol dalgylch ac, o ganlyniad i hyn, ei fod yn gorfod mynychu ysgol arall sy'n fwy na'r pellter cerdded o'i gartref, darperir cludiant i'r ysgol addas agosaf yn unig. Mae'n bosibl na fydd hyn yn cyd-fynd â dewis ysgol y rhiant/gofalwr, ac mewn amgylchiadau o'r fath bydd y rhiant/gofalwr yn gyfrifol am gostau a threfniadau'r cludiant.

8. Cludiant am resymau meddygol

Gellir darparu cludiant i ac o'r ysgol am gyfnodau byr ar argymhelliad Swyddog Iechyd/Meddygol priodol a bydd yn amodol ar gadarnhad gan yr awdurdod lleol. Lle cytunir arni bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

9. Trefniadau arbennig – taliadau i rieni/gofalwyr

Gall y Cyngor gytuno dan amgylchiadau arbennig bod rhiant/gofalwr yn cludo plentyn i'r ysgol ac o'r ysgol ac yna'n cael ad-daliad i gwrdd â chostau tanwydd. Caiff achosion o'r fath eu hystyried yn unigol.

13. Trefniadau arbennig – ceisiadau i ddefnyddio disgresiwn yr awdurdod lleol

Gall y cyngor defnyddio ei ddisgresiwn i roi cymorth i ddarparu cludiant ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gymwys fel arall ar gyfer cludiant am ddim, ble cyflwynir amgylchiadau arbennig.

Bydd angen i rhieni/gofalwyr cyflwyno cais os ydynt yn meddwl bod yna amgylchiadau arbennig. Caiff pob cais ei ystyried yn ôl ei rinweddau.

Nid yw'r Cyngor yn cynnal rhestr o amgylchiadau sy'n arwain at ddarparu cludiant yn ôl disgresiwn; fodd bynnag, i gynorthwyo rhieni/gofalwyr, dyma enghreifftiau o amgylchiadau o'r fath:

- pan fo'r dysgwr wedi gorfod newid cyfeiriad, er mwyn symud i ran wahanol o'r fwrdeistref sirol i ffoi rhag sefyllfa o drais domestig;
- sefyllfaoedd o argyfwng byrdymor sy'n golygu bod angen i'r dysgwyr symud i ardal wahanol yn y Fwrdeistref;
- lle mae gan ddysgwr gyflwr meddygol sy'n golygu bod angen trefnu cludiant yn y byrdymor (e.e. wedi torri ei g/choes).

Dylai rhieni gysylltu â'r Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr ar y rhif ffôn 01656 642650 i gael mwy o gyngor ynghylch sut i wneud cais.

14. Cynllun lleoedd am dâl

O bryd i'w gilydd mae'n bosib y bydd y niferoedd a gaiff eu cario gan yr awdurdod lleol yn is na nifer y lleoedd yn y cerbyd a ddefnyddir. Mewn achosion o'r fath bydd yr awdurdod lleol yn trefnu bod y lleoedd dros ben ar gael i blant sy'n byw'n agosach na'r terfyn pellter a nodir ym mharagraff 2. Darperir lleoedd am dâl ar sail flynyddol ac mae'n rhaid deall nad yw darparu'r cyfleuster hwn yn rhywbeth y mae'r ALI dan orfodaeth i'w wneud ac, o gofio bod y ddarpariaeth yn gwbl ddibynnol ar y lle sydd yn y cerbyd a ddefnyddir, gellir tynnu'r cyfleuster yn ôl yn gymharol fyr rybudd.

Mae'r ALI hefyd yn cadw'r hawl i dynnu lle wedi'i dalu yn ôl mewn achosion lle mae'r rhiant/gofalwr yn gwrthod talu'r gost; yn ogystal â hyn, bydd yr ALI yn ystyried hanes talu blaenorol y rhiant/gofalwr wrth ystyried cais newydd. Pan fo rhiant/gofalwr wedi gwrthod neu fethu â thalu mewn blynyddoedd blaenorol, gallai hyn arwain at wrthod y cais newydd.

Cynghorir rhieni/gofalwyr i gysylltu â'r Uned Cydlynu Cludiant (rhif ffôn 01656 642653) ynghylch lleoedd am dâl.

15. Trosglwyddo i ysgol arall – trefniadau cludiant

Ni fydd disgyblion y mae eu teuluoedd yn symud i gyfeiriad y tu allan i ddalgylch yr ysgol a fynychir yn parhau i gael cludiant am ddim i'r ysgol os yw'r symud hwnnw'n digwydd yn ystod addysg gynradd, neu ym mlynyddoedd saith, wyth neu naw yn ystod addysg uwchradd.

Caiff ceisiadau ar ran disgyblion sy'n symud ym mlynyddoedd 10, 11, 12 neu 13 eu hystyried yn unigol ac, os cânt eu cymeradwyo, caiff pàs bws ei ddarparu fel arfer.

16. Monitro a'r drefn gwynion

Bydd pob cerbyd ar gael ar gyfer archwiliadau ar hap gan y comisiynwyr traffig neu gorff priodol arall, pan fo hynny'n ofynnol. Eir ati ar unwaith i ymchwilio i unrhyw gwynion y bydd yr ALI yn eu derbyn oddi wrth rieni am wasanaethau neu gerbydau.

Os caiff y gŵyn ei chadarnhau, bydd y camau angenrheidiol a phriodol yn cael eu cymryd yn unol â'r contract fel mater o flaenoriaeth. Dylai rhieni gysylltu â'r Uned Cydlynu Cludiant. (Rhif ffôn 01656 642654) schooltransport@bridgend.gov.uk.

Bydd yr ALI, ar ddiwrnodau amhenodol, yn cynnal archwiliadau o gontractau, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r contractau.

17. Cludiant o'r cartref i'r coleg

Gall yr holl fyfyrwyr sy'n 16, 17 neu'n 18 mlwydd oed ar Fedi'r 1af ac sy'n mynychu'u cwrs cyntaf o astudiaeth lawn-amser mewn coleg addysg bellach yn y flwyddyn academaidd honno, fod â hawl i gludiant am ddim ar yr amod eu bod:

- byw yn bellach na'r maen prawf pellter o dair milltir;
- yn mynychu'r coleg agosaf at eu cartref sy'n darparu'r cwrs.

Y dull cludiant arferol ar gyfer myfyrwyr coleg yw bws/trên.

18. Y Cod Ymddygiad Teithio: Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Fel rhan o'r mesur uchod mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r "Cod Ymddygiad Teithio" i hybu teithio diogel ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, trwy nodi'r safonau ymddygiad a fydd yn ofynnol ar gyfer yr holl ddysgwyr wrth deithio rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae'r Cod, sydd wedi cael ei roi i bob dysgwr, yn annog ysgolion ac awdurdodau lleol i weithio mewn modd rhagweithiol gyda dysgwyr, eu rhieni a'r gymuned i hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r Cod hefyd yn caniatáu i'r ALI atal cludiant dros dro dan amgylchiadau lle mae dysgwr wedi camymddwyn wrth deithio i'r ysgol/coleg.

Bydd yr ALI yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y Cod os yw'n ystyried atal cludiant. Mae elfennau disgresiwn polisi'r Cyngor dan adolygiad, a gallent gael eu hatal yn llwyr. Gwneir unrhyw newidiadau arfaethedig mewn ymgynghoriad â dysgwyr a rhieni ac, os cytunir arnynt, byddant fel arfer yn dod i rym ar ddechrau blwyddyn ysgol ac yn cymryd i

L. Darpariaeth ar Gyfer Disgyblion ag Anghenion Dysgu Y Chwanegol

Y Polisi

Mae'n bolisi gan yr ALI i addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gyda disgyblion eraill sydd yr un oedran â hwy yn eu cymuned leol pryd bynnag y bo'n ymarferol. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan fo'n rhaid i'r ddarpariaeth arbenigol sy'n ofynnol er mwyn diwallu rhai anghenion eithriadol gael ei rhoi mewn cyfleusterau dynodedig arbennig, o bosib y tu allan i'r gymuned leol a than rai amgylchiadau eithriadol, y tu allan i'r awdurdod lleol. Caiff pob achos ei ystyried yn unigol.

- I. Yng nghyd-destun ei bolisi, mae'r ALI yn ymrwymedig i'r egwyddorion cyffredinol canlynol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

- II. Darparu cyfleoedd addysgol o ansawdd ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, a chydabod eu hawl i fynediad cyfartal at addysg eang, gytbwys a pherthnasol ni waeth beth fo'u rhyw, eu hil na'u hangen arbennig.
- III. Rhoi cyngor, arweiniad, cymorth a hyfforddiant priodol i lywodraethwyr, penaethiaid a staff o ran eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.
- IV. Cydnabod y gall disgybl, ar unrhyw adeg, fod ag anghenion addysgol y bydd angen darpariaeth addysgol arbennig er mwyn eu diwallu.
- V. Cyflwyno continwmm hyblyg o ddarpariaeth addysgol arbennig sydd wedi'i bwriadu i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion unigol. O fewn y continwmm hwn o ddarpariaeth arbennig cydnabyddir y bydd anghenion y mwyafrif o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu diwallu yn eu hysgol gan ddefnyddio adnoddau'r ysgol. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y ceir disgyblion y mae eu hanghenion dysgu ychwanegol yn golygu bod angen darpariaeth ychwanegol neu wahanol.
- VI. Fel gyda'r holl drefniadau derbyn eraill, yr ALI yw'r awdurdod derbyn ar gyfer darpariaeth addysgol arbennig.
- VII. Cynnal ystod o wasanaethau canolog sy'n cynnwys Athrawon Arbenigol a Seicolegwyr Addysg yn yn Gwasanaeth Cynhwysiant i roi cymorth i asesu, monitro a gwerthuso darpariaeth arbennig.
- VIII. Ymrwymiad i'r egwyddor o gynhwysiant sy'n rhoi ystyriaeth i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon.
- IX. Caiff anghenion ychwanegol plant, gan gynnwys plant o oedran cyn ysgol, eu hadnabod a'u hasesu, a chaiff darpariaeth briodol ei threfnu cyn gynted â phosib. Caiff hon wedyn ei monitro a'i gwerthuso'n rheolaidd.
- X. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog i gyfranogi yn y broses o adnabod ac asesu anghenion dysgu ychwanegol eu plentyn a darparu ymyrraeth er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Bydd penderfyniadau o ran sut a ble y gellid diwallu anghenion ychwanegol plentyn yn cynnwys y rhieni ac yn ystyried safbwyntiau'r plentyn ei hun. Bydd y broses yn cynnwys rhoi arweiniad ynghylch hawliau statudol, a ffyrdd y gall rhieni weithio mewn partneriaeth gydag ysgol eu plentyn.
- XI. Caiff pwysigrwydd cyswllt effeithiol ag asiantaethau eraill, yn rhai statudol a gwirfoddol, ei gydnabod wrth benderfynu ar natur anghenion dysgu ychwanegol disgybl, a'r ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i ymateb i'r anghenion hynny.
- XII. Ystyrir mai cyfrifoldeb y gwasanaethau iechyd lleol yn bennaf yw darparu cyngor, arweiniad a chymorth mewn perthynas â meddygaeth, nyrsio a pharafeddygaeth.

Cydnabod dyletswydd yr ALI yn ei rôl cynllunio strategol i fynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu'r ddarpariaeth addysg arbennig.

Cyfleusterau dynodedig arbennig

Trwy drafodaethau ac asesiadau o blant gan yr asiantaethau allanol priodol efallai yr ystyrir mai darpariaeth arbenigol fyddai'r ffordd orau o ddiwallu anghenion y plentyn. Mae'r

ddarpariaeth ganlynol ar gael ar hyn o bryd:

- Canolfannau adnoddau ar lefel Gynradd ac Uwchradd ar gyfer disgyblion â'r canlynol:
 - Nam ar eu Clyw
 - Nam ar eu Golwg (Cynradd yn Unig)
 - Nam echddygol, anghenion cymhleth a meddygol (Uwchradd yn Unig)
 - Anawsterau Cyfathrebu ac Anhwylderau ar y Sbectrwm Awstistiaeth
 - Anawsterau Dysgu Cymedrol
- Ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth, darperir amgylcheddau dysgu arbenigol, llai trwy ysgolion arbenigol:
 - **Ysgol Arbennig Heronsbridge** sy'n darparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu lluosog dwys ac ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awstistiaeth difrifol ag anghenion na ellir eu diwallu mewn unrhyw ddarpariaeth prif ffrwd neu arbenigol arall.
 - **Ysgol Arbennig Bryn Castell** sy'n darparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anawsterau Ymddygiadol, Cymdeithasol ac Emosiynol, ag anghenion na ellir eu diwallu mewn unrhyw ddarpariaeth prif ffrwd neu arbenigol arall.

Cyngor i rieni/gofalwyr

Os yw rhieni/gofalwyr yn ystyried y gall fod gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol, yn gyntaf dylent drafod y mater â phennaeth ysgol eu plentyn.

Gellir cael unrhyw wybodaeth bellach am y ddarpariaeth sydd ar gael yn yr awdurdod lleol gan:

Addysg a Chymorth i Ddeuluoedd
Gwasanaeth Cynhwysiad
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Rhif ffôn: 01656 815230.

LL. Amddiffyn Plant

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, blaenoriaeth pob ysgol ac asiantaeth cymorth fydd amddiffyn plant a lles plant. Mae gan bob ysgol athro/athrawes (a dirprwy) d(d)ynodedig a chanddo/chanddi gyfrifoldebau am ymdrin â materion sy'n gysylltiedig ag amddiffyn plant a rhoi cyngor a chymorth i aelodau eraill o staff.

Mae cam-drin plant yn cynnwys trais corfforol, creulondeb emosiynol, esgeuluso a cham-drin rhywiol. Gall gynnwys niwed bwriadol i blentyn neu fethiant rhiant i ddiogelu'r plentyn. Gall ddigwydd hefyd pan na roddir goruchwyliaeth briodol, gofal priodol neu sylw priodol i blentyn.

Mae'n ofynnol yn statudol i ysgolion hysbysu ynghylch pryderon pan fo ganddynt wybodaeth bod plentyn yn neu wedi bod yn dioddef niwed sylweddol. Bydd rhieni'n cael eu hysbysu os gwneir atgyfeiriad at yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd cydsyniad

y rhieni'n cael ei geisio pan fo hynny'n briodol.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi cyngor a chymorth i ysgolion ac mae ganddo'i Dîm Amddiffyn Plant neilltuedig ei hun, sy'n gweithio yn y Swyddfeydd Dinesig, gallwch cysylltu â'r tîm trwy'r canlynol:

**Addysg a Chymorth i Ddeuluoedd
Tîm Amddiffyn Plant
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB**

Rhif ffôn: 01656 815270

M. Llywodraethwyr Ysgol

Mae gan bob ysgol gorff llywodraethu sydd â'r rôl allweddol o wella safonau. Mae gan Lywodraethwyr gyfrifoldeb dros wella ysgol, polisiau ysgol, ymddygiad yr ysgol ac i sicrhau bod yr ysgol yn darparu safon dda o addysg i bob un o'i ddisgyblion. Maen nhw hefyd yn gofalu am gyllid yr ysgol ac yn gyfrifol am benodi a diswyddo staff. Nid yw Llywodraethwyr yn ymwneud â'r ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg o un dydd i'r llall, sef cyfrifoldeb y Prifathro. Y Prifathro fel arfer fyddai'n ymdrin ag ymholiadau cyffredinol a materion sy'n ymwneud â disgyblion a staff.

Mae cyrff llywodraethol yn cynnwys pobl leol sy'n barod i roi o'u hamser yn wirfoddol oherwydd eu diddordeb yn yr ysgol. Byddant yn cynnwys rhieni, llywodraethwyr a benodwyd gan Awdurdod Lleol, athrawon, y Prifathro ac aelodau eraill o'r gymuned leol.

Bydd y corff llywodraethu'n darparu adroddiad ysgrifenedig i rieni bob blwyddyn ar beth sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn flaenorol ac yn rhannu cynlluniau'r corff llywodraethu ar gyfer hyrwyddo safonau uchel o gyrhaeddiad addysgol. Os bydd digon o rieni'n gofyn i gwrdd â'r llywodraethwyr ynghylch mater sy'n effeithio ar yr ysgol gyfan, yna bydd pob rhiant yn cael ei wahodd i'r cyfarfod hwn. Gall rhieni wneud cais i gwrdd â'r llywodraethwyr hyd at dair gwaith mewn blwyddyn addysgol, yn unol â bodloni meini prawf arbennig.

Gall rhiant unrhyw blentyn sy'n mynychu'r ysgol roi ei enw ymlaen i fod yn rhiant-lywodraethwr pan fydd lle ar gael; gall rhieni hefyd bleidleisio mewn etholiadau rhiant-lywodraethwyr pan fyddant yn cael eu cynnal. Bydd yr ysgol yn eich hysbysu am y trefniadau hyn ar yr amser priodol. Caiff rhiant-lywodraethwyr eu hethol i gynrychioli buddiannau rhieni a disgyblion. Ni allant helpu i ddatrys problemau penodol y bydd rhieni neu ddisgyblion yn eu hwynebu; bydd gan yr ysgol drefniadau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain.

I gael mwy o wybodaeth am gyrff llywodraethu, neu fanylion ar sut i fod yn llywodraethwr, cysylltwch â:

**Addysg a Chymorth i Ddeuluoedd
Cymorth i Ddysgwyr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB**

N. Grantiau i Ddisgyblion

Grantiau I Ddisgyblion Mae nifer o grantiau ar gael i ddisgyblion a chaiff y rhain eu rhestru isod:

1. Llywodraeth Cymru – grant dillad ysgol

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun grant gwisg ysgol Cymru gyfan ar ddechrau blwyddyn ysgol 2005/06 er mwyn rhoi cymorth i deuluoedd ar incwm isel brynu gwisg ysgol i'w plant. Caiff y grant ei weinyddu gan yr awdurdod lleol.

Mae'r cynllun yn darparu grant o £105.00 i bob disgybl sy'n cychwyn ym Mlwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd yng Nghymru ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r grant hefyd ar gael i ddisgyblion sy'n mynychu ysgol arbennig, canolfan adnoddau anghenion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru a fydd yn 11 mlwydd oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol/academaidd ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn unol â hynny, bydd plant mewn teuluoedd sy'n derbyn y budd-dawdurdod lleoladau canlynol yn gymwys:

- Cymhorthdal Incwm (IS); neu
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm (IBJSA); neu Gymorth dan Ran VI o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999; neu'r
- Credyd Treth Plant (heb Gredyd Treth Gwaith) ac incwm blynyddol is nag £16,190.
- Elfen warantedig o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Treth Gwaith 'run-on' – y tawdurdod lleolad y gallai rhywun ei gael am bedair wythnos arall ar ôl i'w cymhwysedd am Gredyd Treth Gwaith ddod i ben
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (sy'n gysylltiedig ag Incwm) (ESA(IR))
- Credyd Cynhwysol

2. Grantiau dewisol i ddisgyblion – dillad ysgol arbennig

Mae'n bolisi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i drefnu bod Grant Dillad Ysgol Arbennig ar gael i bob disgybl cymwys sy'n mynychu ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 7-11. Golygir hyn nid yw'r grant ar gael i ddisgyblion mewn ysgol gynradd, lau neu Babanod.

Gan fod y grant yn un dewisol, cyfrifoldeb pob ysgol uwchradd yw penderfynu ar swm y grant a'r dull talu. Cynghorir rhieni i gysylltu â'r briod ysgol uwchradd i gael mwy o wybodaeth. Mae lefel argymelledig y grant gan yr ALI ar hyn o bryd yn uwch nag un Llywodraeth Cymru a hysbysir rhieni mai dim ond y grant uwch fydd yn cael ei dalu.

I'r teuluoedd hynny sy'n derbyn y budd-dawdurdod lleoladau y cyfeirir atynt yn (1) mae'r Grant Dillad Ysgol Arbennig yn hawl awtomatig.

Mae ffurflenni cais ar gael gan Dîm Aseidiadau Ariannol a Budd-dawdurdod lleoladau y Cyngor ar gyfer pob ysgol, yn ystod Tymor y Gwanwyn cyn dechrau'r flwyddyn academaidd ym mis Medi. Hoffai'r FABT gael y ffurflenni yn ôl cyn wyrhnos olaf Tymor y

Gwanwyn er mwyn rhoi amser iddynt roi gwybod i ysgolion Uwchradd am ba disgyblion sy'n gymwys ac i atal unrhyw oedi mewn ymdrin â grantiau dillad a'u dosbarthu.

Cynghorir rhieni/gofalwyr y mae angen rhagor o wybodaeth arnynt am y Grantiau Dillad sydd ar gael i gysylltu â:

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr
Tîm Asesiadau Ariannol a Budd-dawdurdod lleoladau
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB**

E-bost: FSM@bridgend.gov.uk

Rhif ffôn: 01656 643396

3. Lwfansau cynhawdurdod lleolaeth addysg (EMA) a chynlluniau Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (WGLG(FE))

Mae gwybodaeth ynghlyn a EMA a/neu cynlluniau WGLG ar gael o [Gyllid Myfyrwyr Cymru](#).

4. Prydau ysgol am ddim

Gallai plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol yn amser llawn fod â hawl i brydau ysgol am ddim (FSM).

Gallai eich plentyn fod â hawl i brydau ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r budd-dawdurdod lleoladau/tawdurdod lleoladau cymorth canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceiswyr Gwaith sy'n seiliedig ar incwm
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Credyd Treth Plant, (heb Credyd Treth Gwaith) ac nad yw eich incwm blynyddol yn uwch nag £16,190
- Elfen warant o Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Treth Gwaith am gyfnod ychwanegol – y tawdurdod lleolad y gallai rhywun ei dderbyn am bedair wythnos arall ar ôl iddynt fynd heibio trothwy'r Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol.

Gall ceisiadau cychwynol cael ei wneud ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae'r ffurflen cais are gael o:

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr
Tîm Asesiadau Ariannol a Budd-dawdurdod lleoladau
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB**

Ebost: FSM@bridgend.gov.uk

Rhif ffôn: 01656 643396

O. Y Gwasanaethau Arlwyo

Mae'r Gwasanaethau Arlwyo'n darparu prydau ysgol yn yr holl Ysgolion Meithrin, 47 Chynradd, mewn 6 Ysgol Uwchradd a 2 Ysgol Arbennig ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r Gwasanaethau Arlwyo o'r farn nad oes bwydydd iach neu afiach i'w cael, dim ond dietau iach neu afiach. Mae ein bwydlenni'n cyfrannu at ddietyd cytbwys ac iach plentyn, gyda digon o amrywiaeth ym mhob math o fwyd ac fel Arlwywyr yr Awdurdod, rydym yn gyson yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth iachach. Trwy ddarparu prydau blasus a maethlon, rydym yn gobeithio annog disgyblion i wella, sicrhau a chynnal diet iach at y dyfodol. Mae bwydlenni'r Gwasanaethau Arlwyo'n glynu at Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 Llywodraeth Cymru.

Mae **prydau mewn ysgolion cynradd** yn cynnwys pryd dau gwrs cytbwys a diod oer am £2.20 y dydd (Medi 2017). Caiff y fwydlen ei darparu mewn cylchdro dros dair wythnos er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn derbyn diet cytbwys, amrywiol.

Mae'r Gwasanaethau Arlwyo'n gweithredu bwydlen prydau twym a dewis o salad dewisol. Mae plant meithrin yn cael y fwydlen prydau twym yn unig.

Caiff ein hymrwymiad i fwyta'n iach ei adlewyrchu yn y cynhyrchion a ddefnyddir gennym, gyda'r mwyafrif yn cynnwys llai o fraster dirlawn, siwgr a halen. Mae arfer da'n sicrhau bod yr holl fwydydd yn cael eu pobi neu'u stemio heblaw am sglodion sy'n cael eu gweini unwaith yr wythnos yn unig. Mae ffrwythau ffres, llysiau, bara gwenith cyflawn ac iogwrt ar gael yn ddyddiol. I gyd-fynd â'r cinio ysgol gall pob plentyn ddewis rhwng llaeth oer neu ddŵr.

Mae **prydau mewn ysgolion uwchradd** ar ffurf gwasanaeth ffreutur arian parod a elwir yn 'Trackers'. Mae tri pharth neu 'lwybr' gweini:

1. **Bar Salad / Llaeth Trackers** – sy'n gweini bwydydd iach e.e. potiau o salad a phasta, iogwrt a llaeth.
2. **Prif brydau Trackers** – sy'n gweini dewis o brydau traddodiadol ynghyd â dewis llysieuol bob dydd e.e. Porc wedi'i rostio, Lasagne neu Bastai'r Bugail.
3. **Prydau Ysgafn Trackers** – gwasanaeth cyflym sy'n cynnig bagéts poeth wedi'u llenwi, rholiau a thortilas, brechdanau a ffrwythau ffres.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd mae peiriannau gwerthu ar gael i'r disgyblion sy'n mynd a dod drwy'r amser.

Gall rhieni/gofalwyr o blentyn/blant efo angen diet meddygol, cysylltu â swyddfa'r Gwasanaeth Arlwyo a bydd ein staff trio hyfforddedig yn ceisio sicrhau y cydymffurfir â'ch gofynion.

I gael manylion bwydlenni wythnosol a mwy o wybodaeth am Brydau Ysgol Pen-y-bont ar Ogwr [ewch i'n tudalen o'r enw 'gwybodaeth am brydau bwyd ysgolion'](#).

**Y Gwasanaethau Arlwyo
Depo Bryncethin**

**Ffordd Melin Du
Pen-y-bont ar gwr
CF32 9YN**

Rhif Ffôn: 01656 815963

E-bost: catering@bridgend.gov.uk

P. Cyflogi Plant

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi llunio Is-ddeddfau diwygiedig mewn perthynas â chyflogi plant (y diffiniad o blentyn yn y cyd-destun hwn yw unigolyn ifanc o oedran ysgol statudol).

Mae Is-ddeddfau'n rheoli'r math o gyflogaeth a ganiateir ar gyfer plant, uchafswm yr oriau y gall plentyn weithio ac maent yn rhagnodi'r mathau o gyflogaeth sydd wedi'u gwahardd.

Dylai rhieni fod yn ymwybodol mai cyfrifoldeb y cyflogwr yw cael trwydded gwaith i blentyn. O fewn wythnos i gyflogi plentyn, mae'n rhaid i'r cyflogwr anfon hysbysiad ysgrifenedig at yr Awdurdod, a hwnnw'n nodi:

- ei enw a'i gyfeiriad ei hun;
- enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn;
- yr oriau a'r diwrnodau y bydd y plentyn yn cael ei gyflogi, yr alwedigaeth y caiff y plentyn ei gyflogi ynddi, gan gynnwys manylion y dasg y bydd yn ei chyflawni;
- datganiad o addasrwydd y plentyn i weithio a chymeradwyaeth i gyflogi'r plentyn, a gwblhawyd gan riant y plentyn;
- manylion yr ysgol y mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig ynddi; a sêl bendith y Pennaeth;
- datganiad sy'n nodi bod asesiad risg priodol wedi'i gynnal gan y cyflogwr; a
- dau ffotograff pasbort diweddar o'r plentyn, a lofnodwyd ar y cefn gan y plentyn a'r cyflogwr.

Os yw'r Awdurdod wedi'i argyhoeddi bod y gyflogaeth arfaethedig yn gyfreithlon, ac na fyddai iechyd na lles y plentyn, na'i allu i fanteisio'n llawn ar ei addysg, yn cael eu peryglu, bydd yn rhoi:

- trwydded cyflogaeth i'r cyflogwr; a
- cerdyn adnabod i'r plentyn a fydd yn cynnwys enw a ffotograff y plentyn a'r dyddiad dyroddi.

Gellir cael mwy o wybodaeth am gyflogi plant ar [ein tudalen y we o'r enw 'rheolau cyflogaeth plant'](#).

**Addysg a Chymorth i Ddeuluoedd
Cymorth i Ddysgwyr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB**

E-bost: pupilservices@bridgend.gov.uk

Rhif ffôn: 01656 642622

PH. Llaeth Ysgol

Mae llaeth ysgol am ddim ar gael mewn ysgolion i'r canlynol:

1. Plant dan bump mewn ysgolion a meithrinfeydd a gynhelir ar yr amod bod y plentyn yn mynychu'r ysgol am o leiaf ddwy awr ar unrhyw ddiwrnod.
2. Pob disgybl sy'n derbyn addysg gynradd o'r flwyddyn academaidd y bydd y plentyn yn codi'n 5 tan ddiwedd Cyfnod Allweddol 1.
3. Disgyblion mewn ysgolion cynradd ac arbennig y mae unrhyw swyddog meddygol priodol wedi tystio bod cyflwr eu hiechyd yn golygu y dylid rhoi llaeth iddynt yn yr ysgol.